# Modiwl 4

Medi 2023

# Cwmpas amodol Modiwl 4 Cymraeg

## Brechlynnau a therapiwteg

Bydd y modiwl hwn yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar amrediad o faterion sy'n ymwneud â datblygu brechlynnau Covid-19 a gweithredu'r rhaglen o gyflwyno brechlynnau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd materion sy'n ymwneud â thrin Covid-19 trwy feddyginiaethau presennol a newydd yn cael eu harchwilio ochr yn ochr. Bydd ffocws ar wersi a ddysgwyd a pharodrwydd ar gyfer y pandemig nesaf.

Archwilir materion thematig sy'n ymwneud â derbyniad anghyfartal o frechlynnau, er mwyn cynnwys nodi grwpiau a oedd yn destun derbyniad anghyfartal, achosion posibl y fath dderbyniad anghyfartal ac ymateb y Llywodraeth.

Bydd y modiwl yn mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder cyhoeddus diweddar yn ymwneud â diogelwch brechlyn a'r system bresennol ar gyfer iawndal ariannol o dan Gynllun Taliad Niwed trwy Frechlyn y DU.

Yn benodol, bydd y modiwl hwn yn archwilio:

1. Datblygu, caffael, cynhyrchu a chymeradwyo brechlynnau yn ystod y pandemig, gan gynnwys effeithiolrwydd gwneud penderfyniadau ar draws y DU, yn benodol, rôl Tasglu Brechlyn y DU. Pa wersi y gallwn ni eu dysgu o arferion arloesol a gyflwynwyd yn llwyddiannus yn ystod y pandemig ar gyfer parodrwydd pandemig yn y dyfodol?

2. Y datblygiad, treialon a chamau a gymerir i alluogi’r defnydd o therapiwteg newydd a meddyginiaethau wedi’u hail-bwrpasu yn ystod y pandemig.

3. Darparu brechlynnau yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys gweithdrefnau cyflwyno fel: trefniadau ar lawr gwlad a negeseuon i'r cyhoedd; argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio ar gymhwyster / blaenoriaethu

a phenderfyniadau a gymerir gan wneuthurwyr polisïau; moeseg penderfyniadau blaenoriaethu ac effaith ar grwpiau penodol megis y rheini â chydafiacheddau. Brechlyn fel Amod Defnydd, yn enwedig ei effeithiolrwydd mewn cyfyngu ar drosglwyddiad ac effaith ar betruster brechu.

4. Rhwystrau rhag derbyn brechlynnau, gan gynnwys hyder mewn brechlyn a materion mynediad ac effeithiolrwydd, amseroldeb a digonolrwydd cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer ac ymateb i anghydraddoldebau sy'n berthnasol i'r nifer sy'n derbyn y brechlynnau.

5. Materion diogelwch brechlyn gan gynnwys gwyliadwriaeth ôl-farchnata, megis system monitro ac adrodd Cerdyn Melyn a chydberthynas awgrymedig rhwng brechlynnau Covid-19 a materion cardiofasgwlaidd.

6. A oes angen unrhyw ddiwygiadau i Gynllun Taliad Niwed trwy Frechlyn y DU.

OGL

© Hawlfraint y goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu’n unol â thelerau’r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://covid19.public-inquiry.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at contact@covid19.publicinquiry.uk.